NEWYDDLEN CWLWM – TYMOR YR HYDREF 2023

# cwlwm



# Newyddlen Cwlwm – Tymor yr Hydref 2023

Croeso i Newyddlen Cwlwm ar gyfer Tymor yr Hydref ble ceir gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae.

## Cynnwys:

1. Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC):
   - Cyflwyniad
   - Beth yw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol?
   - Pam adolygu'r SGC?
   - Beth yw'r newidiadau allweddol i'r SGC?
   - Beth sydd angen i leoliadau ei wneud nesa?
   - SGC - Holi ag Ateb
   - Astudiaethau Achos
   - Dolenni Defnyddiol
2. Adnoddau Newydd: Cyfres o adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer ysgolion a lleoliadau
3. Gofalwn Cymru

# 1. Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC)

## Cyflwyniad

Rhaid i leoliadau gofal plant a gwaith chwarae sy'n rhedeg am fwy na 2 awr y dydd i blant hyd at 12 oed, neu am fwy na 5 diwrnod y flwyddyn, ddilyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) a'r rheoliadau gofal plant cysylltiedig.

Mae'r safonau a'r rheoliadau ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a phriodol gyda staff cymwys.

Y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal gan leoliadau gofal plant a gwaith chwarae yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).



# Beth yw'r Safonau Gofal Cenedlaethol (SGC)?

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) yn berthnasol i bob lleoliad gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig.

**Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cwmpasu wyth maes:**

- Gwybodaeth am y gwasanaeth
- Cynllunio ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol
- Grymuso defnyddwyr gwasanaeth, annog dewisiadau ffordd o fyw
- Ansawdd gofal
- Staffio
- Arwain a rheoli'r gwasanaethau
- Cwynion, diogelu a hysbysiadau o ddigwyddiadau arwyddocaol
- Yr amgylchedd ffisegol

Mae AGC yn monitro, yn arolygu ac yn cyhoeddi adroddiadau i sicrhau bod lleoliadau gofal plant yng Nghymru yn cynnal y safonau gofynnol ac yn darparu gofal plant o ansawdd uchel.

Mae AGC yn asesu pob lleoliad yn seiliedig ar y safonau cenedlaethol, gan edrych ar lesiant, gofal a datblygiad, yr amgylchedd yn ogystal ag arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae adroddiadau arolygu AGC yn helpu rhieni / gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ofal plant ag addysg blynyddoedd cynnar a sicrhau bod pob lleoliad yn cael ei gynnal i safon uchel.



Rhestrir isod y 25 safon a gwmpesir gan y SGC. Gweler y ddogfen SGC am ddadansoddiad llawn o'r safonau gofynnol o dan bob pennawd.




Safon 1: Gwybodaeth [am y lleoliad]
Safon 2: Y Contract
Safon 3: Asesu
Safon 4: Diwallu anghenion unigol
Safon 5: Cofnodion
Safon 6: Gweithio mewn partneriaeth â rhieni
Safon 7: Cyfleoedd i chwarae a dysgu
Safon 8: Maeth a lles
Safon 9: Ymddygiad
Safon 10: Gofal iechyd
Safon 11: Meddyginiaeth
Safon 12: Bwyd a diod
Safon 13: Person addas
Safon 14: Trefniadaeth
Safon 15: Cymarebau staffio
Safon 16: Cyfle cyfartal
Safon 17: Gweithdrefnau ariannol
Safon 18: Ansawdd
Safon 19: Cwynion
Safon 20: Diogelu
Safon 21: Hysbysu am ddigwyddiadau pwysig
Safon 22: Yr amgylchedd
Safon 23: Cyfarpar
Safon 24: Diogelwch
Safon 25: Gofal dros nos



## Pam adolygu'r SGC?

Yn ystod 2022-23, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â'r sector i holi barn am y  newidiadau arfaethedig i'r Safonau.  Wedi'r ymgynghoriad, ac ar ddechrau 2023, dilynodd Crynodeb o'r Ymatebion, a oedd yn dangos bod yr ymatebwyr o blaid y newidiadau a gynigiwyd yn gyffredinol.

## Beth yw'r newidiadau allweddol i'r SGC?



Lle roedd angen, diwygiwyd y safonau i fod yn gliriach, a/neu wedi'u diweddaru i gyfeirio at ganllawiau cyfredol. Mae safonau newydd hefyd wedi'u datblygu neu'u cyfuno fel y bo'n briodol. Er hwylustod, lle gwnaed newidiadau sylweddol i rai safonau, tynnir sylw atynt isod. Cyfeiriwch at y ddogfen NMS am ragor o wybodaeth.

Lle roedd angen rhagor o wybodaeth, cynhwyswyd canllawiau ychwanegol fel atodiadau i ategu rhai o'r safonau fel y bo'n briodol. Cynhwyswyd geirfa hefyd i egluro rhai termau a ddefnyddir yn gyffredin.

- **Gofynion hyfforddi Cymorth Cyntaf Pediatrig (Safon 10: Gofal iechyd)** – mae'r gofynion wedi'u cryfhau ar gyfer cymorth cyntaf mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig, a darperir gwybodaeth gliriach am gynnwys cyrsiau mewn atodiad. Bydd y gofynion o ran hyfforddiant cymorth cyntaf yn wahanol yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir. Darperir cyfnod rhybudd o 18 mis tan ddiwedd Tachwedd 2024 er mwyn i ddarparwyr allu paratoi i fodloni'r gofynion newydd o ran cymwysterau.

- **Diogelu (Safon 20: Diogelu)** – darperir eglurder yn safon 20 ar y gofynion ynghylch diogelu a cheir wybodaeth pellach am yr hyfforddiant priodol ar gyfer gwahanol rolau o fewn y sector mewn atodiad ategol. Darperir cyfnod rhybudd o 18 mis tan ddiwedd Tachwedd 2024 er mwyn i ddarparwyr allu paratoi i fodloni'r gofynion newydd o ran hyfforddiant.



- **Gwarchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwywyr (Safon 13: Person addas (GP))** – darperir canllawiau yn nodi cyfrifoldebau a rôl gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n gweithio gyda chynorthwyydd gwarchod plant a'r hyfforddiant perthnasol y mae'n rhaid i gynorthwyydd ymgymryd ag ef. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gynorthwywyr fod wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs priodol a gydnabyddir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. **Mae Atodiad A - Canllawiau SGC ar gyfer Cynorthwywyr Gwarchodwyr Plant** yn darparu meini prawf ychwanegol y mae'n rhaid i warchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwyydd eu bodloni.
- **Cymwysterau gofal plant ar gyfer darparwyr gofal dydd (Safon 13: Person addas (GD))** – mae'r safon hon wedi'i diwygio'r i ganiatáu i 20% o staff lleoliadau gofal dydd 2 llawn a 10% o staff lleoliadau sesiynol neu fynediad agored sy'n gweithio tuag at gymhwyster gael eu cynnwys yng nghymarebau cymwysterau staff.
- **Aelod staff ychwanegol (Safon 15: Cymarebau staffio)** – mae'r safon benodol sy'n ymwneud â'r gofyniad am staff ychwanegol mewn lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer mwy nag 20 o blant wedi'i dileu. Mae safonau staffio eraill i atgyfnerthu'r trefniadau rheoli ac i'w gwneud yn glir y bydd angen adnoddau staff a rheoli ychwanegol i ymgymryd â rolau rheoli os bydd hyn yn effeithio ar y cymarebau gofynnol o ran plant ac oedolion wedi'u cryfhau.

## Beth sydd angen i leoliadau ei wneud nesaf?

1. Amnewid unrhyw gopïau electronig neu galed o rifyn 2016 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol â fersiwn Mai 2023 (sef y fersiwn mwyaf diweddar).

2. Gwirio sut mae'r newidiadau yn effeithio ar eich busnes a chymryd y camau angenrheidiol i fodloni'r gofynion newydd.

3. Adolygu eich polisïau, eich gweithdrefnau a'ch arferion a fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau, megis cynadleddau, cymorth cyntaf, anghenion ychwanegol, cyfle cyfartal a'ch cynllun gweithredol.

**Gall eich sefydliad ymbarél roi cymorth gyda newidiadau y gallai fod angen i chi eu gwneud.**

### Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Holi ag Ateb

Mae partneriaid Cwlwm yn casglu dogfen Holi ac Ateb SGC a fydd yn cael ei chyhoeddi maes ar law ar wefan Cwlwm a gwefannau partneriaid unigol.

# Astudiaethau Achos

## Effaith cymwysterau Gwaith Chwarae ar ansawdd gofal a chwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC)

## Crynodeb

Mae Clwb yr Enfys yn glwb ar ôl ysgol a gwyliau cyfrwng-Cymraeg sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gymunedol Peniel, Sir Gaerfyrddin ar gyfer plant 4-11 oed, ac yn cynnig amgylchedd ysgogol lle gall plant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae amrywiol. Mae'r clwb gwyliau dros yr haf a'r clwb ôl-ysgol o'r hydref yn llawn, a chyda rhestr aros.

Fel rhan o'u hymrwymiad i safonau o ansawdd uchel, cyflawnodd staff y clwb gymwysterau Gwaith Chwarae, a ddarperir trwy Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, gan eu galluogi i wella ansawdd eu darpariaeth, cwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a bodloni gofynion cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae pum aelod ychwanegol o'r staff yn gobeithio cael mynediad at gymhwyster Gwaith Chwarae Lefel 2 i gynyddu eu capasiti, o ystyried gwelliannau'r NMS sy'n cynnwys bod cyfran o'r staff yn gweithio tuag at gymwysterau.

## Cefndir




Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig yn nodi'n glir y gofynion cymwysterau gofal plant/gwaith chwarae ar gyfer darparwyr gofal dydd, ac maent wedi'u diwygio i ganiatáu i 20% o staff mewn lleoliadau gofal dydd llawn a 10% o staff mewn lleoliadau sesiynol neu fynediad-agored sy'n gweithio tuag at gymhwyster gael eu cynnwys yn y cymarebau cymwysterau staff.  Mae hyn yn golygu bod hwn yn amser da iawn i holi am y cymwysterau sydd ar gael i chi a dechrau cofrestru ag AGC i wella fforddiadwyedd i deuluoedd yn ogystal ag ansawdd y gofal.

Roedd Clwb yr Enfys yn cydnabod y byddai cymwysterau Gwaith Chwarae addas yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'w staff er mwyn creu amgylchedd chwarae o ansawdd uchel i wella chwarae a datblygiad plant a bodloni'r gofynion rheoleiddio.  Fe wnaethant ofyn am gymorth gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a chafodd dau aelod o'r staff fynediad at y cymhwyster Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae, a ariennir yn llawn.  Roedd y cymhwyster yn cynnwys ystod eang o bynciau,  gan gynnwys yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, diogelu, iechyd a diogelwch, rheoli ymddygiad a chyfathrebu effeithiol. Fe'i cyflwynwyd trwy ddosbarthiadau ar-lein, gweithlyfrau a sesiynau mentora, gan sicrhau y gallai aelodau staff ymgysylltu â'r deunydd mewn modd hyblyg.

## Cyllid a chefnogaeth

Cafodd y cymhwyster  ei ariannu'n llawn drwy Brosiect CYMell Cwlwm drwy Lywodraeth Cymru i annog a chefnogi'r cynnydd mewn gweithwyr chwarae Cymraeg cymwys yn y sector.  Roedd Clwb yr Enfys hefyd yn gallu derbyn cymorth ariannol ychwanegol drwy'r prosiect, a fu'n help iddynt  oresgyn

rhwystrau i fodloni'r gofynion cofrestru, gan gynnwys bwrsariaeth i dalu staff i fynychu cymwysterau Cymraeg a grant i gefnogi costau cofrestru. Hefyd, roedd Swyddogion Datblygu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wrth law i gefnogi'r broses gofrestru.

Mae cymwysterau Gwaith Chwarae a ariennir a chefnogaeth AGC hefyd ar gael ar gyfer clybiau cyfrwng-Saesneg sy'n aelodau o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, ac mae rhai awdurdodau lleol yn darparu grantiau i gefnogi datblygiad lleoliadau a/neu ddiwallu anghenion cyfalaf.

## Effaith

**Roedd Clwb yr Enfys yn gallu:**

- Gwella ansawdd y gofal. Cafodd yr hyfforddiant effaith drawsnewidiol ar ddarpariaeth gyffredinol y clwb. Datblygodd aelodau staff ddealltwriaeth ddofn o'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, gan eu galluogi i greu amgylcheddau chwarae deniadol a chynhwysol. Mae hyn yn ei dro yn meithrin datblygiad cyfannol plant, cynyddu eu lles, a hwyluso rhyngweithio cadarnhaol ymhlith cyfoedion.
- Dod yn fwy hyderus a medrus wrth ddarparu darpariaeth chwarae, a thrwy hynny gyfoethogi profiadau chwarae'r plant yn eu gofal.
- Alinio ei arferion â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol wrth i aelodau staff ennill dealltwriaeth gynhwysfawr o'r rheoliadau a'r canllawiau, gan sicrhau cydymffurfiaeth mewn meysydd fel amddiffyn plant, diogelu, a chymarebau staff-i-blentyn.
- Cwrdd â gofynion cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru. Cafwyd gwelliant yng nghymhwysedd y staff, gan ganiatáu iddynt fynd i'r afael yn hyderus â'r meini prawf, y polisïau a'r gweithdrefnau arolygu sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru AGC.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Ar ôl cydnabod manteision hyfforddiant Gwaith Chwarae, mae Clwb yr Enfys wedi ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Maent yn parhau i ymgysylltu â Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs, gyda phum aelod ychwanegol o'r staff yn gobeithio cael mynediad i'r cwrs Gwaith Chwarae Lefel 2 drwy brosiect CYMell. Mae person cyfrifol a pherchennog y lleoliad hwn hefyd yn awyddus i ymgymryd â hyfforddiant pellach a defnyddio adnoddau'r gyfundrefn i wella eu gwybodaeth a'u harferion.



Astudiaeth achos

# Toadhall Montessori Nurseries, Caerdydd, ar newidiadau allweddol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Yn dilyn cyhoeddi'r diweddariadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS) ym mis Mai 2023, edrychodd NDNA Cymru ar sut mae'r newidiadau allweddol i'r gofynion hyfforddi Cymorth Cyntaf Pediatrig (Safon 10: Gofal Iechyd) yn gysylltiedig â Millie's Mark gan NDNA.

Fel y gwyddom, yn dilyn yr ymgynghoriad y llynedd a'r adborth a dderbyniwyd, un o'r newidiadau oedd cryfhau'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig. Caniateir hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2024 i ddarparwyr gwblhau'r hyfforddiant, er mwyn cadw at y gofynion cymhwyster newydd.



Mae Atodiad B yn y SGC yn amlinellu gwybodaeth glir am gynnwys y cwrs, a bydd angen adnewyddu'r cwrs bob 3 blynedd. Fodd bynnag, argymhellir bod swyddogion sy'n gyfrifol am Gymorth Cyntaf Pediatrig yn ymgymryd â hyfforddiant gloywi blynyddol. Mae'n ofynnol i ddarparwyr arddangos tystysgrifau a rhestr o staff sydd â Thystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig / Cymorth Cyntaf Brys Pediatrig cyfredol.

Gall cynyddu nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig leihau'r tebygolrwydd o ddamweiniau a chodi hyder ymarferwyr ynghylch ymwybyddiaeth diogelwch i blant mewn lleoliadau gofal plant.

Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o gynllun a gosodiad yr amgylchedd i sicrhau gall staff hyfforddedig weithredu'n gyflym ac yn briodol mewn argyfwng, a hefyd dylent ystyried nifer y plant a'r staff ar y safle bob dydd.

Yn ddiweddar, cychwynnodd Toadhall Montessori Nurseries, Caerdydd ar Millie's Mark NDNA. Mae'r staff i gyd wedi sicrhau bod eu hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn gyfredol.

*Mae'r manteision i staff sy'n meddu ar, ac yn adnewyddu [cymhwyster] Cymorth Cyntaf yn rhoi'r hyder i staff ddelio ag unrhyw sefyllfa neu argyfwng a allai godi yn y ffordd gywir,' meddai Toadhall Montessori Nurseries.*

Cofrestrodd Toadhall Montessori Nurseries â Millie's Mark gan NDNA, am eu bod am i'w holl rieni/gofalwyr deimlo'n hyderus wrth adael eu plant mewn amgylchedd diogel, gan wybod bod yr holl staff wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig, a bod uwch staff hefyd wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y gweithle.

**Fel lleoliad Millie's Mark, mae'r lleoliad yn derbyn:**

- Cefnogaeth mentor
- Archwiliadau hyder i'w defnyddio gyda'r tîm
- Taflen ffeithiau diwydrwydd dyladwy
- Templed enghreifftiol o bolisi gweithiwr unigol ac archwiliad asesiad risg staff
- Templedi matrics hyfforddi i'w cwblhau.

Ar ôl cwblhau Millie's Mark dyfarnir cymeradwyaeth arbennig i Toadhall Montessori Nurseries i ddangos ei bod wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion lleiafswm trwy hyfforddi 100% o'i staff mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig. Hefyd, mae'n sicrhau bod popeth a ddysgwyd yn ystod y cwrs yn cael ei gadw'n fyw ac ar flaen meddyliau yr ymarferwyr, fel eu bod yn hyderus, yn barod ac yn alluog.  Mae Millie's Mark yn cydnabod bod diogelwch plant yn flaenoriaeth i ymarferwyr wrth ofalu am blant.

Meddai Toadhall Montessori Nurseries, Caerdydd:

> ***Y budd i blant yw bod Millie's Mark yn caniatáu gofal am bob plentyn yn y ffordd gywir os a phan fo angen Cymorth Cyntaf, gan wneud i'r plant deimlo'n ddiogel ac yn hapus o fewn amgylchedd eu meithrin.***

Yma, mae'r staff ym Toadhall Montessori Nurseries, Caerdydd, yn dangos i'r plant sut i wneud dadebru Cardio-pwlmonaidd (CPR).





Gall meithrinfeydd a lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill ledled Cymru nawr gofrestru ar gyfer Millie’s Mark, gwobr am arfer gorau mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig.

Dywedodd Sandy Clayton o Toadhall Montessori Nurseries yng Nghaerdydd, a gymerodd ran ym mheilot Millie’s Mark yng Nghymru:

> ***Mae llawer o fanteision i staff, rhieni / gofalwyr a’r plant. Mae’n rhoi hyder i rieni adael eu plant mewn amgylchedd diogel ond hefyd i’r staff deimlo’n alluog i ddelio gyda, ac ymdopi mewn argyfwng.***

I gael rhagor o wybodaeth am Millie’s Mark, ewch i’n gwefan

[https://www.milliesmark.com/](https://www.milliesmark.com/)



Astudiaeth achos

# Cylch Meithrin Ffrindiau Bach yr Eos, Penparcau, Aberystwyth

## Cymhareb oedolyn:plentyn

Mae Cylch Meithrin Ffrindiau Bach yr Eos yn darparu gofal diwrnod llawn i blant rhwng 2 oed ac oedran ysgol. Mae'r cylch wedi'i leoli mewn adeilad newydd sbon, ac yn darparu ystod o wasanaethau. Trefnir yr adeilad yn ddwy brif ystafell, ardal awyr agored, cegin, cyntedd a thoiledau.

Mae gan y cylch 24 o blant yn mynychu bob dydd ac mae 7 aelod o staff yn cael eu cyflogi gan y cylch sy'n cwrdd â'r cymarebau dyddiol i oedolion:plant.

Er bod y nifer cywir o staff yn gweithio yn y cylch i gwrdd â'r cymarebau, mae yna adegau pan fydd staff yn gorfod mynd â phlant i'r toiledau i newid eu cewynnau, sy'n eu tynnu allan o gymhareb yr ystafell. Mae hyn oherwydd natur yr adeilad - mae'r toiledau mewn ardal ar wahân. Gan fod drws ffrynt y cylch ar goridor y tu allan i'r brif ystafell, rhaid i aelod o staff adael y brif ystafell i'w ateb.

Mae staff a'r pwyllgor yn ymwybodol nad yw'r gymhareb oedolyn:plentyn yn yr ystafell lle mae plant yn derbyn gofal yn gywir bob amser. Mae'n amhosib mynd â 4 phlentyn gyda chi i newid un cewyn, neu fynd â grŵp o blant i ateb y prif ddrws.

Trafododd y cylch yr opsiynau canlynol fel ffyrdd o fynd i'r afael â'r sefyllfa hon, er nad yw'r rhain yn ddelfrydol o bell ffordd:

1. Cyflogi aelod ychwanegol o staff fel fflôt (byddai'r newidiadau i'r SGC yn eu galluogi i gynnwys aelod o staff a oedd yn gweithio tuag at gymhwyster neu gymhwyster nad oedd yn gymwys)
2. Recriwtio gwirfoddolwr i weithio'n ddyddiol.

O ystyried yr holl opsiynau posib, daeth yn amlwg na fyddai'n bosib i'r cylch benodi aelod ychwanegol o staff i fod yn 'fflôt', gan na fyddai hyn yn hyfyw yn ariannol, a hefyd yn heriol oherwydd yr argyfwng recriwtio presennol ar draws y sector. Roedd recriwtio gwirfoddolwr i gynnig cymorth dyddiol hefyd yn cael ei ystyried yn heriol gan y teimlwyd bod hyn yn ymrwymiad sylweddol.

O ganlyniad, derbyniwyd bod mynd ag aelod o staff allan o'r ystafell am gyfnodau byr yn anochel, gan fod angen newid cewynnau plant a bod staff yn gorfod agor y drws i ymwelwyr neu rieni. Roedd yn rhaid i'r cylch ddysgu sut i reoli'r risg tymor byr hwnnw.

Oherwydd nid yw'r cylch yw'n cwrdd yn llwyr â'r SGC ynghylch cymarebau yn y sefyllfa hon, cysylltwyd ag AGC am arweiniad.

Derbyniwyd canllawiau pwyllog nad oeddent yn disgwyl yr amhosib o'r cylch ond roddodd yr hyblygrwydd iddynt i wneud y gorau o fewn y sefyllfa bresennol. O ganlyniad, mae'r cylch wedi:

- **ysgrifennu asesiad risg sy'n nodi adegau pan ellir tynnu aelod o staff o'r ystafell am gyfnod byr naill ai: newid cewynnau neu ateb y drws**
- **ystyried cymwysterau a phrofiad yr holl staff, gan sicrhau bod unrhyw aelod o staff dibrofiad yn cael cefnogaeth staff cymwys a phrofiadol yn yr ystafell pan fydd un aelod o staff y tu allan i'r ystafell**
- **newid ei Ddatganiad o Ddiben i nodi y gallai fod cyfnodau byr o amser lle bydd aelod o staff yn cael ei dynnu allan o'r gymhareb a bod y risg hon yn cael ei nodi a'i reoli drwy ein hasesiad risg.**

Wrth gwrs, mae'r newidiadau i'r aelod uwchrifol (*supernumerary*) (lle nad oes gofyniad mwyach) wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r cylch, gan y gallant gynyddu nifer y plant sy'n mynychu fesul sesiwn i 24 a pheidio â gorfod cael aelod o staff uwchrifol. Mae'r cylch wedi nodi adegau yn ystod yr wythnos pan mae'r cymarebau yn caniatáu i'r rheolwr wneud gwaith gweinyddol yn y swyddfa.

Mae diogelwch plant yn ganolog i'r cynllunio uchod. Mae staff yn trafod yn rheolaidd pa mor dda mae pethau'n gweithio ac maent bob amser yn agored i nodi ffyrdd gwell a mwy effeithlon o reoli eu diwrnod. Ni fyddan byth yn gallu newid adeilad y cylch, ond maent yn ymwybodol o'r risg ac yn rheoli hynny cystal ag y gallant. Mae yna ffordd ymlaen bob amser!







## Cynorthwywyr Gwarchod Plant a'r SGC diwygiedig

Mae PACEY Cymru wedi edrych yn fanylach ar yr hyn y mae'r newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir (NMS) yn ei olygu i'r rhai sy'n gweithio, neu'n edrych i weithio, gyda chynorthwyydd gwarchodwr plant yng Nghymru.

Gall cynorthwyydd gwarchodwr plant fod yn weithiwr neu'n wirfoddolwr mewn swydd â thâl neu ddi-dâl sy'n gweithio gyda phlant o dan arweiniad gwarchodwr plant cofrestredig. Ni fyddai'n cynnwys myfyriwr ar leoliad mewn lleoliad gwarchod plant.

Yn ein blog: NMS a chynorthwywyr gwarchodwyr plant yng Nghymru rydym wedi darparu rhai cwestiynau cyffredin mewn perthynas â chynorthwywyr gwarchod plant gan gynnwys Cwestiynau Cyffredinol; Gofynion hyfforddi; Gwybodaeth weithredol (cynorthwywyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain a chymarebau); Recriwtio, sefydlu, goruchwylio ac arfarnu a chofnodion a gofynion yswiriant.

Gan weithio o dan oruchwyliaeth, ac mewn partneriaeth â gwarchodwr plant cofrestredig, gall cynorthwyydd gwarchod plant chwarae rôl werthfawr i gefnogi darparu gofal o ansawdd uchel i'r plant, profiadau dysgu priodol, a helpu sicrhau eu diogelwch a'u lles.

Fel gwarchodwr plant, os ydych wedi cynyddu'r galw, eisiau ehangu nifer y lleoedd gofal plant gallwch eu cynnig, neu'n chwilio am help yn ystod cyfnodau prysur, gall cyflogi cynorthwyydd helpu gyda hyn. Wrth ystyried y buddion i'ch gwasanaeth a'r plant rydych yn gofalu amdanynt, wrth gyflogi cynorthwyydd, mae'n bwysig deall eich cyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw gynorthwyydd yn berson addas a chymwys ar gyfer y rôl.

Mae'r hyfforddiant gofynnol yn rhan o sut y gallwch gefnogi eich cynorthwyydd i ddeall eich rôl a'ch cyfrifoldebau wrth ofalu am blant. Efallai mai dyma'r hyfforddiant gofal plant achrededig cyntaf y maent wedi'i gwblhau ac mae'n Uned gydnabyddedig ar Lefel 3. Er y gall gymryd amser ac ymrwymiad i'w gwblhau, bydd yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillir yn eich cefnogi i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel, yn rhoi sicrwydd i rieni a gofalwyr ac yn hyrwyddo proffesiynoldeb yn eich gwasanaeth.

Os ydych chi'n ystyried cyflogi cynorthwyydd neu os oes angen i chi gael mynediad at hyfforddiant ar gyfer cynorthwyydd presennol, cysylltwch â'ch tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lleol i drafod eich cynlluniau. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech drafod cyflogi cynorthwyydd ymhellach, e-bostiwch PACEY Cymru ar paceycymru@pacey.org.uk neu ffoniwch 02920 351407.

## Dolenni Defnyddiol

- Hafan | Arolygiaeth Gofal Cymru
- Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal... | Gofal Cymdeithasol Cymru
- National minimum standards for the welfare of children - GOV.UK (www.gov.uk)
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio | LLYW.CYMRU

# 2. Adnoddau Newydd: Cyfres o adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer ysgolion a lleoliadaus




Fel rhan o'r dull Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer plant 0-5 oed yng Nghymru, cyhoeddwyd cyfres newydd o Adnoddau gan y Llywodraeth Cymru i gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau gofal plant a chwarae ac ysgolion i ddarparu chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o safon. Dilynwch y ddolen i gael mwy o wybodaeth:

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/chwarae-dysgu-a-gofal-plentyndod-cynnar-yng-nghymru/



# 3. Gofalwn Cymru

**Mae Gofalwn Cymru yn cefnogi cenhedlaeth nesaf ein gweithlu gofal plant a gofal cymdeithasol. Drwy chwalu mythau ac arddangos llwybrau dilyniant gyrfa, rydym yn gobeithio denu mwy o bobl â'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir i weithio ym maes gofal yng Nghymru.**

Gofalwn.cymru | WeCare.wales

## Hyfforddiant am ddim

Rydym yn cynnig **Cyflwyniad i ofal plant** i bobl sydd â diddordeb mewn gweithio yn y sector. Mae'r rhaglen deuddydd ar-lein ar gael i unrhyw un sy'n byw yng Nghymru. Mae'r hyfforddiant yn ymdrin â'r hanfodion sydd eu hangen i ddechrau gweithio gyda phlant megis cyfathrebu, diogelu ac arferion gweithio:

[Gofalwn.cymru/hyfforddiant/](Gofalwn.cymru/hyfforddiant/)



# Welsoch chi ein hysbyseb teledu newydd?

https://www.youtube.com/watch?v=HNMdP_RBI5s


Roedd ein hymgyrch recriwtio ddiweddar yn chwilio am fwy o weithwyr gofal plant a chwarae.

Beth am greu eich ymgyrchoedd recriwtio eich hun drwy ddefnyddio ein hasedau? Cwech fynediad at ein hysbysebion, fideos astudiaethau achos a delweddau trwy nodi'r enw defnyddiwr a chyfrinair canlynol:

Gofalwn.cymru/pecyn-cymorth-rhanddeiliaid/

**Enw defnyddiwr**: Rhanddeiliaid

**Cyfrinair**: Toolkit_WeCare!




Methu dod o hyd i'r hyn rydych chi'n chwilio amdano? Cysylltwch â ni yn cyswllt@gofalwn.cymru






## Cefnogi cyflogwyr

Oes gennych chi swyddi gwag i'w llenwi? Os felly, beth am eu hysbysebu am ddim ar borthol swyddi Gofalwn Cymru? Rydym yn hyrwyddo ein porthol swyddi ar y teledu, cyfryngau cymdeithasol, trwy argraffu a hysbysebu digidol!

Os hoffech i'ch swydd wag ymddangos yn rhad ac am ddim ar y porthol, cofrestrwch a chreu proffil ar ein gwefan:

[Gofalwn.cymru/cyflwyno-swydd-wag/](Gofalwn.cymru/cyflwyno-swydd-wag/)

Ydych chi wedi meddwl am gynnig rhaglen brentisiaeth yn eich lleoliad?

Mae gwefan Gofalwn Cymru yn cynnwys gwybodaeth am werth prentisiaethau a manteision recriwtio prentisiaid i'ch gweithlu:

[Gofalwn.cymru/prentisiaethau/](Gofalwn.cymru/prentisiaethau/)










## Allwch chi ein helpu ni?

Rydym yn chwilio am bobl a all ysgogi ac ysbrydoli pobl i wneud gwahaniaeth drwy ystyried gyrfa mewn gofal. Gall **Llysgenhadon Gofalwn Cymru** fod ar unrhyw lefel gyrfa ond rhaid iddynt fod yn hyderus, yn ymroddedig ac yn gyfathrebwyr da. Mae'r rôl hon yn wirfoddol ac mae angen cefnogaeth cyflogwr:

[Gofalwn.cymru/llysgenhadon/](Gofalwn.cymru/llysgenhadon/)

cwlwm

www.cwlwm.org.uk

Mae partneriaeth Cwlwm yn cynnwys y sefydliadau isod:


**CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS**
Bridge House, Station Road, Llanishen, Caerdydd CF14 5UW
**Ffôn:** 029 2074 1000 **E-bost:** info@clybiauplantcymru.org

**BLYNYDDOEDD CYNNAR CYMRU**
Uned 1, Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd, CF10 5NB
**Ffôn:** 029 2045 1242 E-bost: info@earlyyears.wales

**MUDIAD MEITHRIN**
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists
Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint-Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1PD
**Ffôn:** 01970 639639 **E-bost:** post@meithrin.cymru

**NDNA CYMRU**
National Day Nurseries Association
NDNA Cymru, Office 3, Crown House, 11 Well Street, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AE
**Ffôn:** 01824 707823 **E-bost:** wales@ndna.org.uk

**PACEY CYMRU**
Room G16, The Maltings, East Tyndall Street, Caerdydd CF24 5EZ
**Ffôn:** 02920 351407 **E-bost:** paceycymru@pacey.org.uk